**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 16 o Hydref 2018 yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Haf Williams (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Goronwy Hughes, Cemlyn Jones, Martin Jones, Rhys Parry, Philip Roberts.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Llywelyn Williams, Meirwen Lloyd, Richard Robinson, Clifford Williams, Hefin Jones

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**Clerc:** Meirion Jones

**265. Croeso gan y Cadeirydd**

Estynnnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd i bawb am droi fyny.

**266. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**267. Datgan buddiant personol.**

Y rhain yw cofnodi fel yn briodol

**268. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Medi 2018**

Cadarnhawyd cofnodion mis Medi yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**269. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

Adroddwyd fod y gwasanaeth bws rhif 88, sydd yn gwasanaethu o Llanberis i Gaernarfon yn rhedeg yn dda gan y cwmni newydd

**270. I ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan y canlynol;**

**a) Eco'r Wyddfa;**
**b) Y Sefydliad Coffa;**

Fe ddatganodd y Cynghorydd Goronwy Hughes ddiddordeb yn y cais yma ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth.

**Penderfynwyd:** Cyfrannu fel a ganlyn

a) Eco'r Wyddfa - £700

b) Y Sefydliad Coffa - £2100

**271. I dderbyn diweddariad ar y clwb ieuenctid**

Adroddwyd fod y Cadeirydd a'r Clerc ynghyd a dau swyddog o Gyngor Gwynedd wedi cyfweld ar gyfer apwyntio dau weithiwr ieuenctid ar gyfer Llanrug. Roedd y ddau a apwyntiwyd o safon uchel ac fe gynigwyd y swyddi iddynt ac fe'i dderbyniwyd. Bydd Cyngor Gwynedd nawr yn trefnu tystlythyrau a thystysgrifau datganiadau troseddol.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**272. I dderbyn adroddiad ar faterion y fynwent**

Adroddwyd fod y gwaith ar lwybrau'r fynwent wedi cychwyn, ond yn anffodus oherwydd y tywydd nod oedd yn bosib i'r contractwyr ei orffen a bydd yn rhaid iddynt ddychwelyd ar ddyddiad i'w benderfynu.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**273. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Nid oedd y cynrychiolydd yn bresennol

**274. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cwm y Glo.**

Nid oedd y cynrychiolydd yn bresennol

**275. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**Cyllideb**

Erbyn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Leol, mae hyn yn golygu gostyngiad o 0.8% i Gwynedd, sydd wedi derbyn un o'r setliadau gwaethaf, dim ond 5 sir sef, Sir Fynwy, Sir Fflint, Powys, Conwy ac Ynys Môn, sydd wedi cael toriad mwy sef 1%. Mae 5 sir wedi cael cynnydd yn ei cyllideb o rhwng 0.1% a 0.4%. Sydd yn golygu codiad o 0.03% i Llywodraeth Leol i gymharu a codiad o 18.4% i'r Economi a Trafnidiaeth a 7.5% i'r Gwasanaeth Iechyd.

**Arbedion / Pa Wasanaethau Cyngor Gwynedd sy'n bwysig i chi**
Felly buaswn yn annog pawb i lenwi yr holiadur ar lein, er mwyn rhoi arweiniad/syniad i Gynghorwyr, lle ddylai y toriadau cael eu gwneud. Mi fydd yn amser anodd oherwydd fod llawer o'r toriadau posib wedi eu gwneud yn barod.

**Cynllunio**

Dim ond i ddweud fod y maes parcio yn ymyl Cibyn wedi cael ei ganiatáu gan y pwyllgor ddoe.

**Cynllun Tŵf Gogledd Cymru**

Cyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn, yn cymryd lle yr wythnos nesaf i geisio cael caniatâd i symud i'r cam nesaf. Bydd rhaid cael caniatâd y 6 Awdurdod i symud ymlaen.

**Cartrefi Cymunedol Gwynedd**

Mi wnes i adrodd y mis diwethaf y byddai cynrychiolaeth Cyngor Gwynedd ar Fwrdd y Cwmni yn gostwng o 4 i 2 erbyn diwedd y flwyddyn. Erbyn hyn mae'r Aelod Cabinet dros tai wedi penderfynu mae Cai Larsen a finnau fydd y ddau gynrychiolydd o Gwynedd fydd yn aros ar y Bwrdd.

**Bysiau**

Fel rydych yn gwybod mae Gwynfor Coaches erbyn hyn wedi eu penodi i redeg Gwasanaeth rhif 88. Dwi ddim wedi cael unrhyw gwynion hyd yn hyn.

**Yn lleol**

**Llifogydd**

Wedi bod yn tynnu lluniau o'r llifogydd i erddi cefn Stryd y Llyn sydd yn cael eu achosi gan afon Allt Goch. Mae i weld fod y bund yn rhy isel, yn enwedig ar y darn isaf yn ymyl y culvert, rwyf wedi ei gyrru nhw ymlaen i swyddogion y cyngor i weld oes posib codi y bund ychydig yn uwch.

**Ysgol Cwm y Glo**

Dim ond 6 o blant oedd ar y gofrestr ym mis Medi, erbyn hyn mae rhain wedi gwneud ceisiadau i symud i ysgolion eraill ac mae rhain wedi ei derbyn, felly does dim plant ar ôl yn yr ysgol.

Mae'r Athro, y Cymhorthydd Dosbarth, a'r Gogyddes wedi gadael yr ysgol erbyn hyn. Ar hyn o bryd mae'r gofalwr yn dal i weithio tan y Nadolig.
Mae'r Pennaeth dal yn yr ysgol ac yn brysur yn ceisio cael trefn ar yr holl ddogfennau ac yn y blaen, er mwyn eu trosglwyddo i'r Awdurdod i'w cadw am amser penodol. Y sefyllfa swyddogol yw fod yr ysgol dal ar agor. Os fydd llai na deg plentyn ar y gofrestr ym mis Ionawr, yna fydd camau yn cael eu cymryd i gau yr ysgol.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**276.** **I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**Gorchymyn i gau Ffordd Glanffynnon o 4 Tachwedd am 47 diwrnod.**

Yn dilyn y rhybudd i gau Ffordd Glanffynnon o bwynt gyferbyn â 2 Glanffynnon hyd at bwynt gyferbyn â 20 Minffordd, hyn er mwyn galluogi gwaith uwchraddio'r garthffos o dan y ffordd, rwyf wedi gofyn i bennaeth yr ysgol gynradd gysylltu â'r cyngor sir i ofyn os fydd yn bosibl cael rhywun i helpu'r plant groesi ar Ffordd Llanberis dros cyfnod y gwaith. Hynny yw, disgwylir i fwy o rieni ddefnyddio'r fynedfa ar Ffordd Llanberis tra fydd Ffordd Glanffynnon ar gau. Mae'r pennaeth wedi anfon neges i'r cyngor sir i'r perwyl yma.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**277.** **I dderbyn diweddariad ar gyfer rhannu arian elusen 'Llanrug Poor House'.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes ei fod wedi bod mewn cysylltiad a'r Comisiwn Elusennau ac hefyd y CCLA, sydd yn gyfrifol am weinyddu'r gronfa i esbonio bwriad y Cyngor o'i chau. Adroddodd ymhellach ei fod wedi bod mewn trafodaethau gyda Prif Athrawes yr Ysgol Gynradd yn egluro bwriad y Cyngor o ddosbarthu'r arian.

**Penderfynwyd:** a) Derbyn a diolch am yr adroddiad.
b) Y Clerc mewn ymgysylltiad a'r Cynghorydd Goronwy Hughes i baratoi ffurflen gais a nodiadau i ddisgyblion geisio am arian o'r gronfa

**278.** **I dderbyn diweddariad ar y gronfa diffibriliwr ac i ystyried agor yr apêl i aelodau o'r cyhoedd**

Adroddwyd fod y gronfa yn sefyll ar £1065.00 hyd yma gyda mwy o addewidion. Nodwyd fod cynrychiolydd o elusen ' Calon Cymru' am ddod un noson i arddangos y gwahanol fath o offer sydd ar gael.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a parhau i godi ymwybyddiaeth o'r apêl yn y gymuned.

**279.** **I gydnabod llwyddiant y fynwent yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn 2018 sydd yn cael ei gynnal gan y 'Memorial Awareness Board'.**

Adroddwyd fod y Cynghorydd Richard Robinson ynghyd a'r Clerc wedi mynychu seremoni wobrwyo ar gyfer mynwentydd ar draws Prydain. Adroddwyd mai ail oedd Llanrug ac fe dderbyniwyd tystysgrif i'r perwyl hyn.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth a paratoi datganiad i'r wasg

**280. I ystyried trefniadau ar gyfer Nadolig 2018**

Adroddwyd fod angen cadarnhau trefniadau ar gyfer y Nadolig fel archebu'r coed a trefniadau ar gyfer eu gosod.

**Penderfynwyd:** Cysylltu a Mrs Meinir Griffiths a drefnu cyfarfod ar gyfer amserlen o osod y goeden ac hefyd trefnu cyfarfod o'r pwyllgor hamdden

**281. I benderfynu ar ddyddiad cyfarfod Pwyllgor Hamdden**

Adroddwyd nad oedd cyfarfod o'r uchod wedi ei gynnal ers tipyn ac fod angen un ar gyfer cadarnhau trefniadau'r Nadolig a materion eraill.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i geisio dyddiau cyfleus gan aelodau'r pwyllgor ar gyfer cynnal cyfarfod.

**282. I bennu ar ddyddiad cyfarfod Pwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd nad oedd cyfarfod o'r uchod wedi gynnal ers tipyn.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i geisio dyddiadau cyfleus gan aelodau'r pwyllgor

**283. Ceisiadau Cynllunio**

a) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0829/23/DA

**Lleoliad y Safle:** Tir tu cefn 3 Tai Hermon, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554PE

**Dyddiad Cofrestru:** 11-Medi-2018

**Math o Gais:** Diwygiadau Ansylweddol

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Diwygiadau ansylweddol i ganiatad rhif C17/0025/23/LL gan gynnwys newidiadau i'r agosiadau, ychwanegu ffenestri to ynghyd a newid y llechi ar gyfer y to o lechi Cymreig i lechi Sbaeneg

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Gwrthwynebu'r cais oherwydd ei fod ddim yn defnyddio llechi lleol

**b)** **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0841/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Lletyr Wenol, Caeathro, Caernarfon, LL552SL

**Dyddiad Cofrestru:** 20-Medi2018

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Dymchwel estyniad un llawr, estyniad cyswllt a chodi estyniad deulawr newydd

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

**c)** **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0888/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Oriel Plas Hafod, Ceunant, Caernarfon, LL554RU

**Dyddiad Cofrestru:** 27-Medi-2018

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Newid defnydd cyn-oriel celf i uned wyliau ynghyd a chyfarpar trin carthffosiaeth

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim Gwrthwynebiad

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: